Easy Read

NCMH
National Centre for Mental Health
Canolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol

Engage To Change

# Engage to Change

## Y pedair blynedd gyntaf

**Elisa Vigna, Stephen Beyer, Andrea Meek and Jacob Meighan**



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y **tîm gwerthuso Engage to Change ym Mhrifysgol Caerdydd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Engage to Change: y pedair blynedd gyntaf**.'

**Chwefror 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Engage to Change**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.engagetochange.org.uk

**E-bost:** engagetochange@ldw.org.uk

**Ffôn:** 029 20681160

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Easy Read Wales** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Am y prosiect Engage to Change........................................................4**

**Pam bod Engage to Chance yn bwysig i Gymru.....................................6**

**Beth rydyn ni'n wybod sydd yn gweithio'n dda.....................................8**

**Beth rydyn ni wedi ei ddysgu.................................................................11**

Pwy wnaeth gymryd rhan..................................................................11

Profiad yn y gorffennol.......................................................................12

Pa anghenion cefnogi oedd gan y bobl ifance.................................13

Cael swydd.........................................................................................14

Y math o gefnogaeth mae pobl ei angen ..........................................17

Gwella sgiliau ....................................................................................18

Beth roedd cyflogwyr yn ei feddwl am Engage to Change...........20

**Canfyddiadau pwysig eraill...................................................................22**

**Beth sydd yn digwydd nesaf.................................................................25**

**Geiriau anodd.........................................................................................28**


# Am y prosiect Engage to Change

Mae **Engage to Change** yn brosiect 5 mlynedd sydd yn cael arian gan Gronfa Gymuned y Loteri Cenedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Getting Ahead 2.



Mae **Anabledd Dysgu Cymru** yn gweithio gyda Cyflogaeth gyda **Chefnogaeth ELITE, Agoriad Cyf, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a Phrosiect SEARCH DFN** i ddarparu'r prosiect yma.

Mae'r **Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol** ym **Mhrifysgol Caerdydd** yn dweud wrthyn ni pa mor dda mae'r prosiect yn gweithio.




Nod y prosiect ydy cefnogi pobl ifanc gydag anabledd dysgu neu **awtistiaeth** i:

- darganfod a chael swydd
- dysgu a chadw swydd.
- cael help gan hyfforddwr swyddi i wneud hyn.



Mae pobl gydag **awtistiaeth** yn gallu gweld rhai pethau yn anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.



Mae **Engage to Change** hefyd yn rhoi **interniaethau gyda chefnogaeth** a hyfforddiant.



**Interniaeth gyda chefnogaeth** ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant a phrofiad gyda chefnogaeth hyfforddwr swyddi.




Fe wnaeth y prosiect ddechrau ym mis Mehefin 2016 ac mae'n gorffen ym mis Tachwedd 2022.




Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud cyn coronafeirws.

# Pam bod Engage to Change yn bwysig i Gymru



Mae'r nifer o bobl ifanc gydag anabledd dysgu neu **awtistiaeth** sydd â swyddi gyda thâl yn dal yn isel iawn yng Nghymru.




Mae pobl ifanc gydag anabledd dysgu ac **awtistiaeth** yn wynebu llawer o sialensau pan maen nhw'n ceisio darganfod a chadw swydd gyda thâl.



Efallai bod pobl ifanc angen gwahanol gefnogaeth yn dibynnu ar eu hanghenion. Er enghraifft, efallai bod gan rai pobl:



- problemau gyda darllen, ysgrifennu neu gofio tasgau




- anhawster i ganolbwyntio ar wybodaeth



- anhawster i ymdopi â newidiadau a gwneud pethau ar amser.



**Ond dydy hyn ddim yn meddwl bod pobl yn methu gweithio. Mae'n meddwl eu bod nhw angen y gefnogaeth gywir.**



Rydyn ni'n ceisio cynnig y gefnogaeth gywir i bob person. Fe fydd hyn yn ein helpu ni i gael rhagor o bobl ifanc mewn gwaith yng Nghymru.

# Beth rydyn ni'n wybod sydd yn gweithio'n dda



Rydyn ni wedi dysgu bod defnyddio hyfforddwr swyddi yn un o'r ffyrdd gorau o gefnogi pobl ifanc gydag anabledd dysgu neu **awtistiaeth**.



Hyfforddwr swyddi ydy rhywun sydd yn eich helpu chi i ddysgu beth i'w wneud yn y gwaith.

**Mae cefnogaeth hyfforddwr swyddi yn gallu helpu pobl ifanc gydag anabledd dysgu neu awtistiaeth i ddarganfod swydd drwy:**



- Cymryd amser i ddysgu rhagor amdanyn nhw. Er enghraifft, beth maen nhw'n ei hoffi a beth maen nhw'n gallu ei wneud yn dda.



- Helpu nhw i roi cynnig ar swyddi i benderfynu beth maen nhw'n ei hoffi.




- Darganfod y swydd gywir ar gyfer eu hanghenion a'u sgiliau.



- Rhoi cyngor a chefnogaeth i gyflogwyr ar beth mae angen iddyn nhw ei wneud.



- Siarad â phobl ifanc a'u teuluoedd i ddeall sut mae gwaith yn gallu newid unrhyw fudd-daliadau maen nhw'n eu cael. Er mwyn gwneud yn siŵr y byddan nhw'n well allan mewn gwaith.

**Mae hyfforddiant swyddi yn gweithio'n dda i gefnogi pobl ifanc pan maen nhw'n dysgu swydd. Efallai eu bod nhw angen:**



- Hyfforddwr swyddi yn eu gweithle i'w helpu nhw i ddysgu'r swydd.




- Dysgu'r swydd drwy dorri tasgau yn gamau bach.



- Gweithio ar eu pen eu hunain pan maen nhw’n hyderus




- Helpu i gael tystysgrif neu gymhwyster ar gyfer y gwaith maen nhw’n ei wneud.



- Helpu i  ddod ymlaen yn dda gyda chydweithwyr a phobl eraill.

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu


## Pwy wnaeth gymryd rhan



I fyny at ddiwedd blwyddyn 4, roedd 771 o bobl ifanc 16 to 25 oed wedi ymuno ag Engage to Change.



Fe wnaeth pobl ifanc ar draws Cymru gymryd rhan yn y prosiect.



Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc wnaeth gymryd rhan yn byw yn Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd.

Roedd llawer o bobl ifanc hefyd o Gastell -Nedd Port Talbot, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin wedi cymryd rhan.



Fe wnaeth 3 o bob 4 person ifanc ddweud wrthyn ni eu bod nhw'n ddynion. Roedd 1 o bob 4 wedi dweud wrthyn ni eu bod nhw'n fenywod.



Roedd bron pawb o’r bobl ifanc ar y prosiect yn sengl.



Dim ond 6 sydd wedi priodi neu mewn perthynas.



Roedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc rhwng 20-21 oed. Roedd y bobl ifanc wnaeth gymryd rhan rhwng 16 a 25 oed.

## Profiad yn y gorffennol



Roedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc wedi bod ar brofiad gwaith cyn ymuno ag Engage to Change. Fel arfer drwy’r ysgol.



Roedd gan dros hanner y bobl ifanc rywfaint o brofiad o wneud gwaith gwrifoddol.



Roedd rhai pobl ifanc wedi gwneud cwrs ymwybyddiaeth gwaith cyn ymuno â'r prosiect.

## Pa anghenion cefnogi oedd gan y bobl ifanc




Dywedodd 763 o bobl ifanc wrthyn ni amdanyn nhw eu hunain a'u anghenion cefnogi.



Dywedodd 207 o bobl ifanc wrthyn ni bod ganddyn nhw anabledd dysgu. Dywedodd tua 160 o bobl ifanc wrthyn ni eu bod nhw'n **awtistig**.



Dywedodd rhai pobl ifanc wrthyn ni hefyd bod ganddyn nhw anghenion cefnogi eraill fel:

- Dyslecsia
- Dyspracsia
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)
- Problemau iechyd meddwl fel pryder ac iselder



Mae rhai pobl ifanc angen llawer o gefnogaeth, mae rhai pobl angen llai o gefnogaeth. Mae'n dibynnu ar y person.




Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc ar y prosiect yn derbyn **budd-daliadau**.



**Budd-daliadau** ydy taliadau gan y llywodraeth i'ch cefnogi chi i fyw.

## Cael swydd

**Yn y 4 blynedd gyntaf:**



Fe wnaeth 362 allan o 771 o bobl ifanc gael **lleoliadau gwaith gyda thâl**.

**Lleoliad gwaith gyda thâl** ydy lleoliad sydd yn para 6 mis ac sydd yn cael ei dalu gan Engage to Change.




Roedd gan 396 allan o 771 o bobl ifanc leoliadau gwaith di-dâl.



Fe wnaeth 194 allan o 771 o bobl ifanc ddarganfod swyddi gyda thâl. Roedd 164 o'r bobl ifanc yma wedi gallu cadw eu swydd am dros 3 mis. Mae hyn yn meddwl bod Engage to Change wedi helpu 21 allan o bob 100 o bobl ifanc i ddod o hyd i swydd â thâl.




Mae hyn yn dda achos rydyn ni'n gwybod mai dim ond 5 allan o bob 100 o bobl ifanc fyddai'n cael swydd â thâl, heb gefnogaeth.



Fe wnaethon ni ddarparu interniaeth gyda chefnogaeth i 116 o bobl ifanc drwy gyrsiau fel Project SEARCH DFN neu **interniaeth gyda chefnogaeth**.



Fe wnaeth yr **interniaethau gyda chefnogaeth** helpu 41 o bobl ifanc i gael swyddi gyda thâl. Roedd 29 o'r rhain wedi gallu cadw'r swydd am dros 3 mis.



Roedd pobl ifanc yn dilyn llwybrau gwahanol i ddarganfod swyddi gyda chefnogaeth hyfforddwr swyddi.

**Dyma rai enghreifftiau o'r dewisiadau llwybrau gwaith oedd gan bobl ifanc:**



1. Roedd nifer o'r bobl ifanc wedi cael cyfle i roi cynnig ar leoliad gwaith byr heb dâl cyn cael swydd gyda thâl oedd yn cael ei dalu gan Engage to Change. Yna roedden nhw'n symud i swydd gyda thâl.



2. Roedd erall yn cael lleoliadau gwaith di-dâl ac yna yn cael swydd gyda thâl.



3. Roedd rhai pobl ifanc yn mynd yn syth i swydd gyda thâl.



4. Roedd nifer fechan o bobl ifanc yn gweithio gyda'r Prosiect SEARCH neu Interniaeth gyda Chefnogaeth ac yna yn cael swydd gyda thâl.

# Y math o gefnogaeth mae pobl ei angen




Dywedodd pobl ifanc wrthyn ni ei bod yn bwysig cael ymgynghorydd cyflogaeth a hyfforddwr swyddi.

Fe ddylai'r oriau maen nhw'n gweithio ddibynnu ar anghenion pob person ifanc. Mae hyfforddwyr swyddi yn cefnogi gyda:




- chynllunio
- darganfod y swydd gywir ar gyfer eu hanghenion a'u sgiliau.
- rhoi cyngor a chefnogaeth i gyflogwyr ar beth mae angen iddyn nhw ei wneud



- hyfforddiant swydd
- hyfforddiant teithio
- unrhyw beth mae'r person ifanc yn ei nodi.



Efallai bod rhai llwybrau gwaith angen rhagor o oriau o gefnogaeth nag eraill.



Mae’r gefnogaeth yn mynd yn llai dros amser pan mae’r person ifanc wedi setlo i mewn i’r gwaith.



Efallai bod pobl ifanc yn parhau i fod angen cefnogaeth os ydyn nhw’n dysgu tasg newydd yn y gwaith, Neu os ydyn nhw angen help i ymdopi â sefyllfa newydd.

## Gwella sgiliau




Fe wnaeth hyfforddwyr swyddi helpu pobl ifanc i feddwl am y sgiliau oedd ganddyn nhw ar gyfer gwaith.




**Edrychwyd ar sgiliau pobl ifanc drwy’r prosiect:**

- ar y dechrau
- ar ddiwedd pob lleoliad
- ar ôl 3 mis mewn swydd gyda thâl.

Fe wnaethon ni ddysgu bod sgiliau pobl ifanc yn dal i wella gyda chefnogaeth. Ar ôl gweithio am rywfaint o amser, roedd pobl ifanc yn:



- gweithio heb wneud camgymeriadau




- gwneud gwahanol dasgau



- gwneud penderfyniadau



- cyfathrebu yn well gydag eraill



- canolbwyntio a gweithio heb gefnogaeth.

# Beth roedd cyflogwyr yn ei feddwl am Engage to Change



Mae'r cyflogwyr wnaeth gymryd rhan yn y prosiect wedi bod yn hapus gyda'r person ifanc roedden nhw'n gweithio gyda nhw.




Roedd cyflogwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael cefnogaeth gan y prosiect.



Roedd bron i bob cyflogwr yn dweud y bydden nhw'n teimlo'n fwy hyderus i roi swydd i rywun gydag anabledd dysgu neu awtistiaeth os oedden nhw'n cael cefnogaeth.

Roedd cyflogwyr yn hapus gyda'r ffordd roedd pobl ifanc yn:



- dilyn rheolau diogelwch
- ar amser i'r gwaith
- dysgu tasgau newydd
- gwneud gwaith da.
- dilyn cyfarwyddiadau

Yn ôl cyflogwyr y 2 beth roedd angen i bobl ifanc eu gwella oedd:



- cynyddu cyflymdra gwaith



- gwneud penderfyniadau eu hunain.

# Canfyddiadau pwysig eraill



Mae pobl ifanc yn gallu gweithio os ydyn nhw'n cael y swydd gywir a chefnogaeth dda.

Mae cael y gefnogaeth gywir ar y prosiect yn meddwl bod:




- 1 o bob 4 person ifanc wedi cael swydd gyda thâl drwy'r prosiect Engage to Change.



- Bron i 4 allan o bob 10 person ifanc wedi cael swydd drwy **interniaethau gyda chefnogaeth**.




- Bron i 5 allan o bob 10 person ifanc wedi cael swydd gyda thâl drwy safleoedd interniaeth Prosiect SEARCH DFN Engage to Change.



Rydyn ni wedi dysgu bod lleoedd gwaith yn gallu bod yn well os ydyn ni'n helpu cyflogwyr i ddeall anghenion cefnogi pobl ifanc gydag anabledd dysgu ac **awtistiaeth**.



Mae pobl ifanc yn fwy llwyddiannus os ydyn nhw'n cael y gefnogaeth i ddysgu'r swydd yn iawn.



Mae cyflogwyr yn cytuno ei bod yn bwysig cael hyfforddwr swyddi.



Mae cyflogwyr eisiau rhoi rhagor o amser i hyfforddi a chefnogi pobl anabl.



Mae cyflogwyr yn gwybod ei bod yn bwysig gweithio gyda phob math gwahanol o bobl, yn cynnwys pobl anabl.



Rydyn ni angen i hyfforddwyr swyddi weithio gyda chyflogwyr i'w cefnogi nhw i symud pobl ifanc o leoliadau gyda thâl i swyddi gyda thâl.


**Pethau mae angen inni weithio arnyn nhw:**



- roedd rhai pobl ifanc angen rhoi cynnig ar fwy nag un swydd cyn iddyn nhw ddarganfod y swydd gywir



- mae problemau teithio yn gallu stopio pobl ifanc rhag cymryd swydd




- roedd rhestrau aros yn hir mewn rhai ardaloedd



- roedd rhai pobl yn colli diddordeb tra'n aros am leoliad gwaith



- efallai bydd rhai cyflogwyr angen hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.


# Beth sydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ddeall y math o gefnogaeth mae pobl ifanc ei angen a faint o arian fydd hynny yn ei gostio.



Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru ddeall bod hyfforddiant swydd yn helpu pobl ifanc gydag anabledd dysgu ac awtistiaeth i ddarganfod a chadw swyddi gyda thâl.




Rydyn ni eisiau gweld cynlluniau clir ar gyfer cyflogaeth gyda chefnogaeth a gwneud yn siŵr bod digon o arian i dalu am hyn.



Fe ddylai Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth i gyflogwyr sydd yn defnyddio cyflogaeth gyda chefnogaeth ac **interniaethau gyda chefnogaeth**.



Fe ddylen nhw gefnogi cyflogwyr sydd yn gweithio gyda gwahanol fathau o bobl, yn cynnwys pobl anabl.



Fe ddylai Llywodraeth Cymru stopio rhoi arian i wasanaethau sydd heb wneud mor dda gyda chyflogaeth gyda chefnogaeth.



Mae angen iddyn nhw ei gwneud yn fwy hawdd i bobl ddefnyddio arian **Mynediad i Waith**. Mae arian **Mynediad i Waith** yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer pethau fel trafnidiaeth neu brynu offer.




Arian ydy **Mynediad i Waith** gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau**. I gefnogi pobl anabl i gael swydd gyda thâl.



Fe ddylid cael mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael **interniaeth gyda chefnogaeth** neu gefnogaeth gan hyfforddwyr swyddi pan maen nhw yn yr ysgol neu yn y coleg.




Rydyn ni wedi dysgu ei bod yn well cael hyfforddwyr swyddi o'r un ardal leol â chyflogwyr.




Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn bwriadu cychwyn rhaglenni cyllido **Cyflogaeth gyda Chefnogaeth Lleol** ar draws gwledydd Prydain i gael rhagor o Hyfforddiant Swyddi.



Os ydy awdurdodau lleol eisiau defnyddio cynllun **cyllido Hyfforddiant Swyddi'r Adran Gwaith a Phensiynau**, mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn cyflogaeth gyda chefnogaeth.



Rhaid inni wneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau fel cyflogaeth gyda chefnogaeth a hyfforddiant swyddi yn hawdd. Fe fydd hyn yn helpu i wneud Cymru yn wlad well i bobl weithio a byw ynddi.

Fe fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ateb anghenion eu deddfau:




- Deddf Llesiant
- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- A Gwarant Ieuenctid Cymru

# Geiriau anodd

### Awtistiaeth

Mae pobl gydag awtistiaeth yn gallu gweld rhai pethau yn anodd. Fel cyfathrebu a bod gyda phobl eraill.

### Budd-daliadau

Taliadau ydy budd-daliadau gan y Llywodraeth i'ch cefnogi chi i fyw.

### Lleoliad Gwaith gyda Thâl

Lleoliad gwaith gyda thâl ydy lleoliad sydd yn para am 6 mis ac sydd yn cael ei dalu gan Engage to Change.

### Interniaeth gyda Chefnogaeth

Interniaeth gyda Chefnogaeth ydy pan mae myfyriwr yn gweithio i gorff i gael hyfforddiant a phrofiad gyda chefnogaeth hyfforddwr swyddi.